# Adroddiad Arolygu

**Cynllun Gofal Melin Gruffydd**

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
**Heol Glan y Nant**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 1AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/08/2023

# Cynllun Gofal Melin Gruffydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Menter Caerdydd |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

### Crynodeb

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn meithrin cydberthnasau â'r staff a'u cyfoedion ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw. Caiff sgiliau annibyniaeth y plant eu hannog.

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau i'r plant eu mwynhau. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, ond mae angen rhoi sylw i rai ohonynt a'u diweddaru i gynnwys gwybodaeth ychwanegol. Roedd y staff yn rhyngweithio'n ddigonol â'r plant. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod angen rhoi sylw i sawl ardal mewn perthynas â gofal a datblygiad y plant. Trafodir y rhain yn fanwl yn yr adroddiad hwn.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac mae adnoddau da ar gael. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn drefnus, gydag amrywiaeth addas o adnoddau. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad yw'r darparwr yn sicrhau bod y staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae ardal chwarae fawr i'r plant yn yr ardal awyr agored.

Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod prosesau arwain a rheoli effeithiol ar waith. Nid yw'n sicrhau ei fod yn bodloni holl ofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn llawn. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol gynradd yn dda.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth o weithgareddau pleserus.

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Mae'r plant yn mynychu'r clwb o Ysgol Melin Gruffydd, ynghyd ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol eraill. Mae'r plant, o amrywiaeth o ysgolion, yn gwneud ffrindiau ag eraill o bob oed, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu, ac maent yn meithrin cydberthnasau da â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol, yn ddigon hyderus i archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn gwybod ble mae'r adnoddau a sut i gael gafael arnynt yn annibynnol.

Mae'r plant yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Gwelsom y plant yn aros eu tro yn amyneddgar i chwarae â'r gemau cyfrifiadurol a oedd ar gael iddynt. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Mae amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ar gael iddynt sy'n berthnasol i'w hoedran. Er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn cymryd rhan mewn senario chwarae rôl lle roeddent yn gwisgo cylchoedd plastig mawr, a oedd yn perthyn i gêm awyr agored, am eu traed fel sodlau uchel. Caiff y plant gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad gan oedolion, ac yn annibynnol. Gwelsom y plant yn dewis cael eu hwynebau wedi'u paentio gan oedolyn. Wrth aros, roedd y plant yn siarad ymysg ei gilydd am yr hyn roeddent am iddo gael ei baentio ar eu hwynebau. Arweiniodd hyn at sgwrs am wylio ffilm newydd yn y sinema a thrafodaeth am eu rhan orau o'r ffilm.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol yn y clwb. Gwelsom blant o bob oed yn cyrraedd amgylchedd y gwasanaeth ac yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol. Mae'r plant yn ymddwyn yn foesgar iawn, ac fe'u clywsom yn dweud ‘os gwelwch chi'n dda’ a ‘diolch’ yn rheolaidd wrth i blentyn arall neu aelod o'r staff eu helpu. Mae amrywiaeth eang o gyfarpar ar gael i'r plant dan do ac yn yr awyr agored, sy'n datblygu eu sgiliau echddygol bras, megis cyfarpar chwarae meddal, gemau parasiwt, sgwteri, peli ac ardal fawr i redeg o gwmpas. Mae pob plentyn sy'n mynychu'r clwb yn siarad Cymraeg yn rhugl.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r arweinwyr yn darparu polisïau a gweithdrefnau, a gaiff eu diweddaru'n flynyddol. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw pellach i rai o'r polisïau. Er enghraifft, yn ystod yr arolygiad, gwelsom rai aelodau o'r staff yn edrych ar eu ffonau symudol, a oedd yn eu pocedi, wrth iddynt ofalu am y plant. Nid yw'r polisïau yn cyfeirio at ddefnyddio ffonau symudol wrth ofalu am blant. Mae'r staff yn cwblhau ffurflenni damweiniau a digwyddiadau. Fodd bynnag, nid oedd pob ffurflen y gwnaethom edrych arni wedi'i llofnodi na'i dyddio gan y rhieni/gofalwyr. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd 26 o blant yn bresennol yn y clwb. Fodd bynnag, dim ond dau aelod o'r staff oedd yn meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol yn ystod yr arolygiad ac, felly, nid oedd y darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae staff y clwb yn rhoi tost i'r plant ar ôl iddynt gyrraedd. Mae'r staff yn glanhau ac yn diheintio'r byrddau cyn cinio. Mae'r rhieni yn darparu pecyn cinio a byrbryd i'r plant ar gyfer eu hamser yn y clwb. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd amser cinio yn ddigwyddiad pleserus na chymdeithasol. Roedd y staff yn eistedd ar fyrddau ar wahân i'r plant i fwyta eu cinio, tra bod y plant yn eistedd wrth fyrddau, yn y tywyllwch, yn gwylio rhaglen deledu Gymraeg a oedd yn cael ei dangos ar y sgrin ryngweithiol fawr, wrth fwyta. Roedd y person â chyfrifoldeb yn eistedd gyda'r plant i fwyta ei chinio.

Mae'r staff yn hwyluso chwarae'r plant ac yn sicrhau bod adnoddau ar gael iddynt drwy gydol y dydd. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ymddangos fel pe baent yn ymgysylltu â'r plant. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd chwarae grŵp gyda'r peli a'r parasiwt, roedd rhai aelodau o'r staff yn sefyll o gwmpas wedi'u hymddieithrio o'r plant a'r gweithgaredd. Nid oeddent yn frwdfrydig nac yn dangos unrhyw ddiddordeb.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae'r clwb gwyliau wedi'i leoli mewn adeilad ysgol gynradd. Mae ganddo fynediad at y brif neuadd, y toiledau, ystafell y staff ac ardal awyr agored fawr. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol, ac mae digon o le i gynnal gweithgareddau'r plant. Caiff y prif ddrws sy'n arwain at y stryd ei gloi, a dim ond aelod o'r staff all adael pobl i mewn drwy bwyso botwm electronig. Mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant ac yn nodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Mae gan yr arweinwyr nifer o asesiadau risg ar waith sy'n nodi ac yn dileu risgiau i ddiogelwch y plant, y staff ac ymwelwyr cymaint â phosibl. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiadau risg y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth am ganiatáu i'r staff yfed diodydd poeth yn ardal chwarae'r plant. Mae hyn yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y plant. Er enghraifft, yn ystod yr arolygiad, gwelsom aelod o'r staff yn cario diod boeth i mewn i'r brif neuadd yn ystod amser y clwb, ar ddau achlysur. Aeth yr arweinwyr i'r afael â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff yn cynnal ymarferion tân yn y clwb. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefn dân yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael cyfle i ymarfer y weithdrefn ar gyfer gwagio'r adeilad sy'n berthnasol i'r clwb gwyliau. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau yn ei gylch.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae digon o adnoddau yn y brif neuadd, megis gemau bwrdd, adnoddau celf a chrefft, gemau cyfrifiadurol a lle i'r plant ymlacio. Mae'r plant yn cael budd o ardal awyr agored fawr. Mae dewis o adnoddau i feithrin eu sgiliau echddygol bras ar gael iddynt. Er enghraifft, sgwteri, gemau pêl, swigod, ceir pedalau, a lle i'r plant ymlacio.

Ceir amrywiaeth addas o deganau ac adnoddau sy'n diwallu anghenion ac ystod oedran amrywiol y plant sy'n mynychu'r clwb. Gall y plant gael gafael ar yr adnoddau yn annibynnol am eu bod yn cael eu storio mewn ffordd hygyrch, sy'n golygu bod plant o bob oed yn gallu cael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r dodrefn i'r plant eistedd arnynt yn ystod y sesiwn yn rhai isel ac yn addas i'r plant sy'n mynychu'r clwb.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gwael

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod prosesau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel am nad yw ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wiriadau addasrwydd angenrheidiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd wedi methu â sicrhau bod y staff yn meddu ar y cymwysterau perthnasol ar gyfer eu rolau. O ganlyniad, mae AGC wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r methiannau rheoleiddio hyn ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Nodwyd gennym hefyd nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant sefydlu ar gyfer eu rolau.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Roedd ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt yn dangos na chaiff sesiynau goruchwylio nac arfarniadau un i un eu cynnal â'r staff er mwyn monitro arferion gweithio'r staff, nodi eu hanghenion hyfforddi neu drafod unrhyw faterion diogelu. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r mater hwn ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael ag ef.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod i AGC am faterion penodol.  Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth bwysig am newidiadau i'r staff, yn benodol y ffaith nad yw'r Unigolyn Cyfrifol yn gysylltiedig â'r clwb mwyach, bob amser wedi'i rhannu'n unol â'r rheoliadau. Mae hwn yn Faes i'w Wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau yn ei gylch.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith. Dywedodd rhai wrthym eu bod yn fyfyrwyr prifysgol a'u bod yn gweithio yn y clwb yn ystod eu gwyliau haf.

Yn ystod yr arolygiad, cyflwynwyd cais ar gyfer Unigolyn Cyfrifol newydd yn y gwasanaeth, a chafodd ei dderbyn. Yn ystod yr arolygiad, dangosodd yr Unigolyn Cyfrifol newydd ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, a nododd ei bod yn cydnabod y methiannau presennol. Dywedodd wrthym ei bod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn gadarnhaol. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r clwb.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y gwiriadau addasrwydd gofynnol yn cael eu cynnal ar y staff a gaiff eu cyflogi cyn iddynt gael eu penodi yn y lleoliad bob amser. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fodloni ei hun bod y staff a gaiff eu cyflogi yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau priodol a'u bod yn addas i weithio gyda phlant. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd i ennill cymwysterau hyfforddiant gorfodol er mwyn eu cefnogi yn eu rolau yn y ffordd orau. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys o fewn yr amserlenni priodol. | Newydd |
| 38 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau ei fod yn cymryd camau digonol i ddiogelu'r bobl rhag y risg o dân. Rhaid sicrhau bod rhagofalon diogelwch digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn fel mater o drefn. | Newydd |
| 24 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod nifer perthnasol o staff yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ymateb yn briodol i unrhyw ddigwyddiad lle mae angen ymyrraeth cymorth cyntaf. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y staff yn cwblhau'r ffurflenni damweiniau yn llawn. |

| | |
|---|---|
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod gwybodaeth ynglyn â storio a defnyddio ffonau symudol yn ystod amser y clwb yn cael ei nodi'n glir mewn polisi. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod amseroedd byrbryd a chinio yn ddigwyddiadau cymdeithasol sy'n cael eu hwyluso gan staff brwdfrydig sy'n modelu sgiliau cymdeithasu da. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau nad yw'r staff yn yfed diodydd poeth yn ardaloedd chwarae'r plant, er mwyn lleihau'r risgiau i'r plant a'r staff. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu ar gyfer ei rôl. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/10/2023